**Rhif:** WG41161

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mai 2022

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG41161 ISBN digidol 978-1-80082-077-7

# Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020 |
| **Camau i'w cymryd** | Dim. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:<br>Y Gangen Asesu<br>Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: APCymruPAWales@llyw.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/ymgyngoriadau<br><br>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. |
| **Dogfennau cysylltiedig** | https://llyw.cymru/gorfodaeth-i-gofnodi-canlyniadau-profion-darllen-rhifedd-cenedlaethol-ar-lein |

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020. Teitl yr ymgynghoriad oedd 'Gorfodaeth i gofnodi canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar-lein'.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofyniad ar gyrff llywodraethu i anfon canlyniadau eu hasesiadau darllen a rhifedd cenedlaethol ar-lein at eu hawdurdod lleol.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r cwestiynau penodol a holwyd, ac yn amlinellu ffordd.

## Crynodeb o’r ymatebion

Cafwyd ugain ymateb i'r ymgynghoriad ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bob un am roi eu hamser i gyflwyno eu sylwadau. Ceir crynodeb o'r ymatebwyr yn Atodiad 1.

Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd (15 ymateb) o blaid y newid arfaethedig. Y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r newid oedd y dylai'r asesiadau fod er lles y disgyblion, er mwyn iddynt ddeall eu cynnydd eu hunain, a hefyd y byddai dileu'r gofyniad i adrodd am y canlyniadau yn lleihau'r baich gweinyddol ar ysgolion.

Y prif faterion a nodwyd gan y rhai a oedd yn erbyn y newid oedd y byddai dileu'r gofyniad yn ei gwneud yn anos olrhain lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr agored i niwed, myfyrwyr byddar a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac os na fyddai awdurdodau lleol yn gwybod beth oedd canlyniadau'r profion, byddai'n anoddach iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer darparu addysg yn eu hardaloedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y materion hyn yn ofalus. Gan na fyddai'r newid arfaethedig yn rhwystro ysgolion rhag rhannu canlyniadau asesiadau ar-lein gyda'u hawdurdodau lleol os teimlir y byddai hynny'n fanteisiol ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y byddai'r materion a godwyd gan y rhai sy'n erbyn y newid yn cael eu lliniaru. O ganlyniad, bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud a'u gosod gerbron y Senedd ar y 9fed o Fai 2022.

## Atodiad: Crynodeb o'r ymatebwyr

- 4 unigolyn
- 4 ysgol gynradd
- 1 ysgol uwchradd
- Cyrff llywodraethu 6 ysgol gynradd a 2 ysgol uwchradd (gan gynnwys un ymateb yn cwmpasu'r ddau).
- Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
- Awdurdod Lleol Abertawe
- Estyn
- UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)